



20 Mai 2010  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

WALES **AUDIT** OFFICE  
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

# Menter Twyll Genedlaethol 2008-09: Sicrhau'r defnydd cywir o arian cyhoeddus



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol 2008-09. Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn oedd Gill Lewis, Katrina Febry a David Rees.

**Gillian Body**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwbl annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hi sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddi hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.


Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwella statudol. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk), neu gweler y wefan [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

© Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

## Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Mai 2010



	<b>Rhagair</b>	<b>5</b>
	<b>Crynodeb</b>	<b>6</b>
<b>1</b>	<b>Mae'r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf wedi parhau i ddarparu buddiannau sylweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru</b>	<b>7</b>
	Yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf yw'r mwyaf effeithiol hyd yma, gan arwain at ganfod ac atal cyfanswm o bron i £4.5 miliwn o ordaliadau	7
	Mae systemau paru traddodiadol y Fenter Twyll Genedlaethol yn parhau i nodi achosion o dwyll a gordaliadau yn effeithiol	9
	Mae systemau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol a gyflwynwyd er mwyn canfod twyll, gordaliadau a cholled o ran refeniw mewn meysydd newydd yn hynod o effeithiol	15
<b>2</b>	<b>Mae angen i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau y gwnaiff y cyfraniad mwyaf posibl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru</b>	<b>20</b>
	Mae angen cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn sicrhau buddiannau mwyaf posibl yr ymarfer	20
	Mae lle i wella lefel a chysondeb cyfranogiad cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y Fenter Twyll Genedlaethol	21
	Mae angen i'r Fenter Twyll Genedlaethol barhau i ymestyn i feysydd newydd o'r gwasanaethau cyhoeddus lle y gallai twyll ddigwydd	22
	Mae'n rhaid cynnal safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter Twyll Genedlaethol	22
	<b>Atodiadau</b>	<b>24</b>
	Atodiad 1 – Sut y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio	24



## Rhagair



Yn fy adroddiad diweddar, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*<sup>1</sup>, nodais fod y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu eu her fwyaf am o leiaf genhedlaeth a bydd yn rhaid iddynt ddod i delerau â lleihad sylweddol iawn yn eu cyllidebau yn y blynyddoedd nesaf. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol posibl, er mwyn lleihau'r boen y byddant yn ei ddioddef. Mae hyn yn golygu y bydd angen i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r adnoddau a'r dulliau gweithredu sydd ganddynt er mwyn atal gwastraff a chamddefnyddio arian cyhoeddus.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yn adnodd hynod o effeithiol y cynhaliad bob dwy flynedd er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi trafodion twyllodrus a dyblyg gan ddefnyddio technegau paru data soffistigedig. Mae'r holl brif awdurdodau lleol, cyrff y GIG, y Cynulliad Cenedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cymryd rhan yn y Fenter ar hyn o bryd. Ers 1996, defnyddiwyd y Fenter i nodi mwy na £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yn erbyn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r ymarfer diweddaraf, ac rwy'n falch o nodi ei fod wedi parhau i fod yn hynod o lwyddiannus, gan arwain at ganfod ac atal cyfanswm o bron i £4.5 miliwn o ordaliadau. Er bod hyn yn werthfawr o ran helpu i ddiogelu gwasanaethau'r rheng flaen, mae'r Fenter hefyd yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i dwyllwyr posibl ac mae hefyd wedi galluogi cyrff cyhoeddus i nodi gwendidau yn eu trefniadau gwrth-dwyll ac i fynd i'r afael â hwy.

Mae llawer o weision cyhoeddus ledled Cymru wedi cyfrannu i lwyddiant y Fenter, ac maent wedi gweithio'n galed i adolygu systemau paru data, nodi ac atal twyll, adennill gordaliadau a sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol yn cael eu dwyn i gyfrif. Wrth wneud hyn, mae'r gweision cyhoeddus hyn yn dangos na fydd eu sefydliadau hwy yn darged hawdd i dwyllwyr ac na fydd twyll yn cael ei ganiatáu. Hoffwn ddiolch i'r unigolion hyn a'u cymeradwyo am eu hymdrechion.

Er hynny, mae lle o hyd i gynyddu nifer y cyrff sy'n cymryd rhan ac i wella'r ffordd y mae rhai cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r Fenter. Er y bu llawer o gyfranogwyr yn rhagweithiol iawn wrth ymchwilio i'r achosion o baru, roedd rhai yn llai rhagweithiol. Pe byddai'r holl gyfranogwyr wedi bod yr un mor rhagweithiol â'i gilydd, ystyriaf y gallai'r effaith ariannol wedi bod yn llawer mwy sylweddol.

Bwriadaf barhau i gynnal y Fenter yn y dyfodol a bydd yr ymarfer yn bwysicach fyth o ystyried y cyfyngiadau ariannol cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus. Rwyf yn ymrwymedig i wella ac ymestyn y Fenter yn y dyfodol er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i barhau i fynd i'r afael â thwyll yn effeithiol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i gefnogi cyrff cyhoeddus yn y frwydr yn erbyn twyll ac yn eu hymdrechion i gyflawni effeithlonrwydd gwell yn ystod y cyfnod anodd sydd o'n blaenau.

Gillian Body  
Archwilydd Cyffredinol Cymru

<sup>1</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*, Mawrth 2010

## Crynodeb

- 1 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario biliynau o bunnoedd o arian y trethdalwyr ar ddarparu budd-daliadau a gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol y boblogaeth yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan y rhai sy'n derbyn y budd-daliadau a'r gwasanaethau hyn hawl iddynt ac maent yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol i wella ansawdd bywyd.
- 2 Yn anffodus, mae unigolion sy'n ceisio hawlio budd-daliadau a gwasanaethau nad oes hawl ganddynt iddynt. Maent yn gwneud ceisiadau a hawliadau twyllodrus ac, wrth wneud hyn, maent yn amddifadu gwasanaethau cyhoeddus o adnoddau gwerthfawr y gellid eu defnyddio i ariannu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Nid yw twyll yn erbyn y gwasanaethau cyhoeddus yn drosedd heb ddiodefnydd. Mae'n golygu y gallai unigolion sydd ag angen gwirioneddol orfod aros yn hirach am wasanaethau, triniaethau neu gymorth oherwydd trachwant eraill.
- 3 Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu eu her fwyaf ers cenhedlaeth. Maent yn wynebu gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau termau real yn y blynyddoedd nesaf. Felly mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn gweithio i ddileu gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn eu gwasanaethau presennol er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar wasanaethau'r rheng flaen. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod gan y rheini sy'n cael gwasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau yr hawl iddynt.
- 4 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol (y Fenter) yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r Fenter ynparu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter wedi bod yn adnodd effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion blaenorol y Fenter wedi arwain at ganfod ac atal mwy na £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £664 miliwn ledled y DU.
- 5 Darparwyd y gwaith paru data ar gyfer ymarfer diweddaraf y Fenter (NFI 2008-09) i gyrff cyhoeddus ym mis Chwefror 2009. Ers hynny, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paru wedi'i adolygu ac mae ymchwiliadau wedi'u cynnal, lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau'r Fenter wedi'u cwblhau, ond mae rhai yn parhau i fynd rhagddynt.
- 6 Bu Fenter 2008-09 yn effeithiol iawn ac arweiniodd at ganfod bron £4.5 miliwn o dwyll a gordaliadau. Fodd bynnag, er mwyn parhau i gyfrannu at yr effeithlonrwydd sylweddol y bydd angen i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ei gyflawni yn y dyfodol, bydd yn rhaid i'r Fenter ddatblygu ymhellach. Bydd hyn yn golygu ymestyn y Fenter i feysydd eraill lle y gallai twyll ddigwydd a chyflwyno setiau data newydd er mwyn helpu i nodi trafodion twyllodrus. Mae cynnydd ar y gwelliannau a'r datblygiadau hyn eisoes yn mynd rhagddynt.



## Rhan 1 – Mae'r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf wedi parhau i ddarparu buddiannau sylweddol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru

### Yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf yw'r mwyaf effeithiol hyd yma, gan arwain at ganfod ac atal cyfanswm o bron i £4.5 miliwn o ordaliadau

- 1.1 Gwnaeth yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol amcangyfrif yn ddiweddar bod twyll yn costio dros £30 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, sydd gyfwerth â £621 i bob oedolyn yn y DU<sup>2</sup>. Amcangyfrifir bod twyll yn achosi colledion o £7 biliwn yn erbyn gwariant y sector cyhoeddus yn unig<sup>3</sup>.
- 1.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn agored iawn i dwyll, ac yn ddiweddar penododd Bennaeth Gwrth-dwyll i ymdrin â'r risg hon. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain materion sy'n ymwneud â thwyll ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, cydlynu adnoddau, cronni arbenigedd a gwybodaeth a hyrwyddo a chyflwyno arfer da. Ymhlith cyfrifoldebau penodol y swydd mae:
  - a codi ymwybyddiaeth swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o dwyll;
  - b bod yn brif bwynt cyswllt i Lywodraeth y Cynulliad ar y Fenter Twyll Genedlaethol;
  - c gweithredu polisiau ac arferion atal twyll;
  - ch chyflwyno technegau canfod twyll; a
- d chysylltu â heddluoedd Cymru wrth ymchwilio i achosion o dwyll ac ymdrin â hwy.
- 1.3 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter bob dwy flynedd. Mae'r Fenter ynparu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi anghysondebau a allai ddangos hawliadau a thrafodion twyllodrus. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi rhai enghreifftiau o baru data a gaiff eu rhedeg drwy'r Fenter a'r mathau o faterion y gellid eu canfod.
- 1.4 Cynhelir ymarferion Menter Twyll Cenedlaethol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ac er mwyn lleihau dyblygu ymdrech, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithredu ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, y Comisiwn Archwilio, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys prosesu'r data fel ymarfer unigol a rhannu adnoddau megis staff a chanllawiau technegol. Darperir rhagor o wybodaeth am y Fenter a sut y mae'n gweithio yn **Atodiad 1**.
- 1.5 Yn hanesyddol, mae'r Fenter wedi bod yn adnodd hynod o effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau. Ers iddi ddechrau ym 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at ganfod ac atal mwy na £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru a £664 miliwn ledled y DU.

<sup>2</sup> Awdurdod Twyll Cenedlaethol, *Dangosydd Twyll Blynyddol*, Ionawr 2010

<sup>3</sup> Awdurdod Twyll Cenedlaethol, *A Fresh Approach to Combating Fraud in the Public Sector*, Mawrth 2010

**1.6** Dechreuodd yr ymarfer diweddaraf, Menter 2008-09, ym mis Hydref 2008 yn erbyn cefndir y dirywiad economaidd. Gwnaeth 68 o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru gymryd rhan ym Menter 2008-09 ar sail orfodol. Ymhlith y rhain roedd:

- a** Awdurdodau lleol
- b** Awdurdodau'r heddlu
- c** Awdurdodau tân
- ch** Byrddau prawf
- d** Cyrff y GIG

**1.7** Yn ogystal, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gymryd rhan yn wirfoddol yn y Fenter. Dyma'r tro cyntaf i Amgueddfa Genedlaethol Cymru gymryd rhan. Caiff manylion cyflogres y mwyafrif llethol o staff y sector cyhoeddus yng Nghymru eu cynnwys bellach yn y Fenter er mwyn paru data i ganfod ac atal twyll.

**1.8** Darparwyd y gwaith paru data ar gyfer ymarfer diweddaraf y Fenter (Menter 2008-09) i gyrff cyhoeddus ym mis Chwefror 2009. Ers hynny, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paru wedi'i adolygu ac mae ymchwiliadau wedi'u cynnal, lle bo hynny'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ymchwiliadau'r Fenter wedi'u cwblhau, ond mae rhai yn parhau i fynd rhagdynt.

**1.9** Bu'r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf yn effeithiol iawn, gan arwain at ganfod ac atal £4.48 miliwn o dwyll a gordaliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r swm a nodwyd yn ymarfer 2006-07 a oedd yn gyfanswm o £4.47 miliwn. Nododd y Fenter £215 miliwn o dwyll a gordaliadau ledled y DU. Dengys **Arddangosyn 2** sut y mae gwerth y twyll a gafodd ei ganfod a'i atal yng Nghymru drwy'r Fenter wedi codi ers i'r ymarfer ddechrau ym 1996.


### Arddangosyn 1 – Enghreifftiau o'r mathau o faterion y gall y Fenter eu datgelu

Setiau data	Materion a ddatgelwyd
Cofnodion cyflogres â chofnodion ceiswyr lloches aflwyddiannus a chofnodion fisa y Swyddfa Gartref sydd wedi dod i ben	Cyflogeion sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus nad oes hawl ganddynt i fod yn y DU.
Cofnodion budd-dal tai a rhent tai â chofnodion budd-dal tai a rhent tai	Unigolion sy'n hawlio budd-daliadau tai a/neu rent tai gan fwy nag un awdurdod lleol.
Cyflogres pensiwn â chofnodion unigolion sydd wedi marw	Pensiwn galwedigaethol yn cael ei dalu lle mae unigolyn wedi marw, ac ni hysbyswyd talwr y pensiwn.
Cyflogres â chyflogres	Cyflogeion ar absenoldeb salwch hirdymor o un cyflogwr tra'n gweithio i gyflogwr arall.
Bathodynau glas â chofnodion unigolion sydd wedi marw	Defnydd amhriodol o fathodynau glas, lle y mae deiliad y drwydded wedi marw, ond efallai na hysbyswyd yr awdurdod lleol.





## Arddangosyn 2 – Gordaliadau a gafodd eu canfod a'u hatal gan y Fenter yng Nghymru £ miliwn



Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter

**1.10** Yn ogystal â pharhau i fod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer canfod twyll, mae'r Fenter hefyd yn darparu rhwystr pwysig i'r rheini a fyddai'n cyflawni twyll. Arweiniodd ymarfer diweddaraf y Fenter at erlyn 28 o droseddwyr yn llwyddiannus a gosodwyd sancsiynau mewn 69 o achosion eraill.


**1.11** Dengys **Arddangosyn 3** ddadansoddiad o ganlyniadau achosion y Fenter yr ymchwiliwyd iddynt fel rhan o ymarfer Menter 2008-09. Mae hyn yn dangos bod y Fenter wedi helpu i nodi twyll a gordaliadau ar draws ystod eang o feysydd megis budd-dal tai, trwyddedau teithio rhatach a phensiynau.

## Mae systemau paru traddodiadol y Fenter Twyll Genedlaethol yn parhau i nodi achosion o dwyll a gordaliadau yn effeithiol

**1.12** Dechreuodd y Fenter ym 1996. Prif ddiben y Fenter oedd paru data er mwyn nodi twyll a gordaliadau yn yr hyn yr ystyriwyd yn feysydd o risg uchel, yn benodol:

- a** Budd-daliadau tai
- b** Cyflogres y sector cyhoeddus
- c** Pensiynau'r sector cyhoeddus

### Arddangosyn 3 – Crynodeb o achosion y Fenter yng Nghymru yn 2008-09




Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter

**1.13** Dros lawer o flynyddoedd, mae paru data yn y meysydd hyn wedi arwain at nodi twyll a gordaliadau gwerth uchel. Arweiniodd hyn at ddileu llawer o dwyll hirsefydlog. Yn benodol, mae taliadau pensiwn hirsefydlog a wnaed yn enw pensiynwyr sydd wedi marw bellach wedi'u hatal. Canfu ymarfer diweddaraf y

Fenter fod y system paru data traddodiadol yn parhau i fod yn adnodd effeithiol wrth ganfod twyll. Roedd y gordaliadau a nodwyd drwy baru budd-dal tai a chyflogresi ym Menter 2008-09 yn uwch na'r rheini a gyflawnwyd yn yr ymarfer blaenorol, fel y gwelir yn **Arddangosyn 4**.



## Arddangosyn 4 – Gordaliadau a gafodd eu canfod a'u hatal drwy Fenter 2008-09 o gymharu â Menter 2006-07



Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Fenter

### Mae'r Fenter wedi parhau i helpu awdurdodau lleol i nodi twyll a gordaliadau budd-dal tai yn llwyddiannus

**1.14** Mae'r Fenter ynparu cofnodion budd-dal tai â nifer o setiau data er mwyn nodi hawliadau twyllodrus neu wallus. Mae canfod ac adennill twyll a gordaliadau budd-dal tai wedi bod yn un o feysydd mwyaf llwyddiannus y Fenter yn draddodiadol, ac y mae'n parhau i fod. Nododd ymarfer 2008-09 fwy na £1.7 miliwn o gordaliadau o ran budd-dal tai (o gymharu â £0.7 miliwn yn 2006-07).

**1.15** Er bod gwerth yr achosion a nodwyd wedi codi 139 y cant, dim ond cynnydd o 43 y cant a welwyd yn nifer yr achosion o dwyll a gordaliadau budd-dal tai a nodwyd drwy'r Fenter, gan ddangos bod cyfartaledd gwerth yr achosion o dwyll a gordaliadau a nodwyd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae ein hadolygiad o'r Fenter ledled Cymru yn awgrymu bod cyfuniad o ffactorau'n gyfrifol am y cynnydd o ran gwerth a niferoedd yr achosion budd-dal tai yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus. Mae awdurdodau'n dod yn fwy rhagweithiol wrth ymchwilio i achosion o baru data'r Fenter ac mae twyllwyr yn dod yn fwy rhagweithiol o ran targedu cyrff cyhoeddus.

- 1.16** Mae paru budd-dal tai nid yn unig yn effeithlon yn nodi twyll ond hefyd yn canfod gordaliadau sy'n codi o wallau hawlwr ac awdurdodau lleol. Twyll hawlwr oedd yn gyfrifol am hanner y gorhawiadau a nodwyd a gwallau oedd yn gyfrifol am yr hanner arall.
- 1.17** Lle y nodwyd bod hawiadau'n dwyllodrus o bosibl, mae awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol o ran cyfeirio achosion at yr asiantaethau priodol er mwyn cynnal ymchwiliadau troseddol. Hyd yma, mae hyn wedi arwain at 27 o erlyniadau llwyddiannus, 22 o gosbau gweinyddol a 46 o rybuddion swyddogol. Mae'r niferoedd hyn yn debygol o gynyddu gan fod llawer o achosion yn dal i fod yn destun ymchwiliad. Mae **Astudiaeth Achos 1** yn dangos sut mae camau gweithredu un awdurdod wrth ymchwilio i baru data budd-dal tai wedi arwain at osod sancsiynau troseddol llwyddiannus ar nifer o dwyllwyr.
- 1.18** Y math mwyaf cyffredin o dwyll budd-dal tai a nodwyd gan y Fenter oedd lle y methodd hawlwr â datgan eu hincwm neu lle y gwnaethant danddatgan eu hincwm. Mae'r Fenter yn paru hawiadau budd-dal tai â chofnodion cyflogres a phensiwn galwedigaethol er mwyn nodi achosion lle byddai incwm cyflogres a/neu bensiynau galwedigaethol naill ai'n dileu hawl i'r budd-dal neu'n lleihau'r budd-dal sy'n daladwy.
- 1.19** Hyd yma, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi 105 o achosion o gyflogeion presennol y sector cyhoeddus yn tanddatgan eu hincwm wrth wneud hawiadau am fudd-dal tai. Hefyd, nododd 133 o bensiynwyr y sector cyhoeddus nad oeddent wedi datgan incwm llawn eu pensiwn wrth wneud cais am fudd-dal tai. Roedd cyfanswm gwerth gordaliadau i bensiynwyr yn unig yn £470,000. Nid yw hyn yn cynnwys

## Astudiaeth Achos 1

Mae ymchwiliadau rhagweithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i achosion o baru'r Fenter wedi arwain at erlyn sawl unigolyn sydd wedi gwneud hawiadau twyllodrus am fudd-daliadau gan y Cyngor, ymysg y rhain mae:

- a** Hawlydd a fethodd â datgan ei bensiwn, ac o ganlyniad hawliodd dros £15,000 o fudd-daliadau nad oedd hawl ganddo iddynt. Erlynwyd yr hawlydd, a phlediodd yn euog i bum achos, un o fethu â hysbysu newid perthnasol yn ei amgylchiadau a phedwar o wneud cynrychiolaeth ffug er mwyn cael budd-dal. Dedfrydwyd yr hawlydd i 'Orchymyn Cyrffyw wedi'i Dagio' am 20 wythnos rhwng 9 pm a 6 am ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £150 o gostau erlyn.
- b** Hawlydd a fethodd â datgan ei thâl o gyflogaeth ac o ganlyniad cafodd fwy na £10,000 o fudd-daliadau nad oedd ganddi hawl iddynt. Cafodd ei herlyn a'i chael yn euog; rhoddwyd gorchymyn gwaith cymunedol 12 mis, 300 awr iddi ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £100 o gostau erlyn.
- c** Hawlydd a fethodd â datgan ei bensiwn gan y GIG ac a gafodd fwy na £7,500 o fudd-daliadau nad oedd ganddo hawl iddynt. Cafodd ei erlyn, ei ddirwy o £300, a chafodd orchymyn i dalu £75 o gostau a £15 o Ordal Dioddefwyr.

Mae'r broses o adennill pob un o'r gordaliadau yn mynd rhagddi.

## Astudiaeth Achos 2

Helpodd y Fenter Gyngor Sir Ceredigion i nodi unigolyn a oedd wedi hawlio cymhorthdal incwm, budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor yn dwyllodrus, pob un ohonynt yn fudd-daliadau ar sail prawf modd. Methodd yr hawlydd â datgan ei incwm o bensiwn galwedigaethol pan wnaeth gais am y budd-daliadau. Nododd achos o baru gan y Fenter rhwng hawlwr budd-dal tai a thaliadau pensiwn y sector cyhoeddus ei fod yn cael pensiwn yn gysylltiedig â chyfeiriad yn Nenmarc. Canfu'r Cyngor fod yr hawlydd wedi hawlio mwy na £10,000 yn dwyllodrus. Erlynwyd yr hawlydd a dedfrydwyd i orchymyn cymunedol 12 mis â goruchwyliaeth. Rhoddwyd terfyn ar yr holl fudd-daliadau, ac mae'r broses o adennill y budd-daliadau a hawliwyd yn dwyllodrus yn mynd rhagddi.



### Astudiaeth Achos 3

Wrth ymchwilio achos o baru budd-dal tai â chyflogres y sector cyhoeddus, nododd Cyngor Sir Ceredigion nad oedd hawlydd a oedd yn cael nifer o fudd-daliadau ar sail prawf modd wedi datgan incwm cyflogaeth llawn ei wraig. Dechreuodd gwraig yr hawlydd weithio i'r GIG yn 2003. Fis yn ddiweddarach, gwnaeth yr hawlydd gais am fudd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor, a chymorthdal incwm. Methodd â datgan incwm ei wraig, a oedd bron i £2,000 y mis. Cyfrifodd y Cyngor fod yr hawlydd wedi hawlio £28,000 o fudd-daliadau yn dwyllodrus dros gyfnod o bum mlynedd. Cafodd yr hawlydd ddedfryd o 36 wythnos o garchar a ohiriwyd am 18 mis, gorchymyn gwasanaeth cymunedol â goruchwyliaeth am 18 mis a 120 o oriau o wasanaeth cymunedol i'w gwneud o fewn 12 mis. Rhoddwyd terfyn ar y budd-daliadau ac mae'r broses o adennill y budd-daliadau a hawliwyd yn dwyllodrus yn mynd rhagddi.

### Astudiaeth Achos 4

Ymchwiliodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei hachosion o baru budd-dal tai yn drwyadl er mwyn nodi achosion o bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau nad oedd hawl ganddynt iddynt. Nodwyd nifer o hawliadau twyllodrus yn llwyddiannus, sydd wedi arwain at roi nifer o rybuddion gan y Cyngor ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Tynnodd yr ymchwiliadau sylw hefyd at y canlynol:

- a Hawlydd a oedd yn cael pensiwn y GIG nad oedd wedi'i ddatgan. Roedd wedi cael mwy na £15,000 o fudd-daliadau tai a threth gyngor nad oedd ganddo hawl iddynt dros gyfnod o saith mlynedd. Erlynwyd yr hawlydd a chafodd ddirwy o £520, fe'i gorchymynnwyd i dalu £60 o gostau erlyn a bydd yn gorfod ad-dalu'r holl fudd-daliadau a gafodd.
- b Hawlydd a oedd yn cael budd-daliadau treth gyngor a thai a fethodd â datgan ei fod wedi dechrau swydd newydd. Cafodd dros £4,000 o fudd-daliadau nad oedd ganddo hawl iddynt. O ganlyniad, cafodd ei erlyn, a rhoddwyd gorchymyn cymunedol 18 mis iddo â gofyniad i wneud 120 o oriau o waith di-dâl. Fe'i gorchymynnwyd hefyd i dalu costau llawn o £339. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn cymryd camau sifil i adennill y gordaliadau.

Dywedodd aelod dros adnoddau Bwrdd Gweithredol y Cyngor, y Cyngorydd Wyn Evans: 'Mae'r Cyngor yn awyddus bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn hawlio [budd-daliadau] mae ganddynt hawl cyfiawn iddynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn benderfynol o fynd i'r afael â hawliadau twyllodrus sy'n rhoi pwysau ar bwrs y wlad, ac sy'n cymryd arian y gellid ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau hanfodol fel arall. Mae'r drosedd hon yn cymryd arian oddi wrth bob un sy'n talu'r dreth gyngor.'

### Astudiaeth Achos 5

Erlynwyd hawlydd budd-dal tai a threth gyngor a'i bartner yn llwyddiannus ar ôl ymchwilio i achos o baru gan y Fenter yng Nghyngor Sir y Fflint. Awgrymodd y paru fod yr hawlydd wedi methu â datgan ei bensiwn o ran ei hawliadau budd-daliadau. Rhybuddiwyd yr hawlydd ddwy flynedd yn flaenorol am fethu â datgan enillion ei bartner, fodd bynnag, gwnaeth ddatganiad yn ddiweddarach ei bod wedi rhoi'r gorau i weithio.

Canfu ymchwiliad diweddaraf y Cyngor nid yn unig fod yr hawlydd wedi methu â datgan ei bensiwn, a fu'n cael ei dalu ers 1987, ond hefyd y cyfrif banc y câi ei dalu i mewn ynddo. Canfuwyd hefyd bod ei wraig wedi dychwelyd i weithio, ac nid oedd hwn wedi ei ddatgan chwaith. O ganlyniad roedd wedi gorchwilio mwy na £19,000 yn dwyllodrus. Cafodd yr hawlydd a'i bartner ryddhad amodol am dair blynedd ar ôl yr erlyniad. Mae'r Cyngor yn adennill y gordaliad.

gordaliadau sydd wedi'u hatal o ganlyniad i atal neu leihau taliadau budd-dal unwaith yr ystyrir incwm llawn yr hawlydd. Mae **astudiaethau achos 2 i 5** yn dangos sut mae awdurdodau wedi defnyddio'r Fenter i nodi hawlwyr budd-dal tai sydd wedi methu â datgan eu hincwm llawn.

- 1.20 Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n cael benthyciad myfyrwyr yn anghymwys i hawlio budd-dal tai. Gwnaeth ymarfer y Fenter baru data benthyciadau myfyrwyr â chofnodion budd-daliadau tai er mwyn nodi taliadau budd-dal tai a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Yn dilyn adolygiad o'r data a barwyd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi 56 o achosion lle mae myfyrwyr naill ai wedi hawlio budd-dal tai yn dwyllodrus neu wedi cael gordaliad ohono. Mae'r achos hwn o baru data yn parhau i fod yn bwysig iawn mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth fawr o fyfyrwyr.

## Mae achosion paru cyflogres y Fenter yn parhau i roi sicrwydd i gyrff cyhoeddus ynghylch uniondeb eu gweithlu

- 1.21** Mae'r Fenter yn paru data cyflogres ledled sector cyhoeddus y DU â systemau'r Swyddfa Gartref er mwyn nodi achosion o gyflogeion sy'n cyflawni twyll cyflogaeth, yn torri amodau gwasanaeth neu gyfarwydddeb oriau gwaith yr UE. Gall achosion paru data cyflogres y Fenter Twyll Genedlaethol nodi unigolion:
- a** sydd â dwy swydd gan weithio patrymau sifft anghydnaws yn y ddwy swydd, (gan amlygu pryderon ynghylch materion iechyd a diogelwch cysylltiedig);
  - b** sy'n absennol oherwydd salwch hirdymor o un sefydliad tra'n gweithio i un arall;
  - c** sydd â dwy swydd amser llawn; a
- ch** chyflogeion cyhoeddus sy'n geiswyr lloches aflwyddiannus neu mae eu fisa wedi dod i ben ac felly nid oes hawl ganddynt i fyw na gweithio yn y DU.
- 1.22** Er bod gwerth ariannol y twyll a'r gordaliadau a nodir drwy'r gyflogres yn tueddu i fod yn fach (£155,000), gall y materion a nodwyd fod yn sylweddol iawn. Gallant adlewyrchu pryderon o ran iechyd, diogelwch a hyder y cyhoedd. Mae **astudiaethau achos 6 a 7** yn nodi dwy enghraifft a nodwyd yn ymarfer Menter 2008-09.
- 1.23** Mae'r Fenter hefyd yn paru cofnodion cyflogres â hawliadau budd-dal tai er mwyn nodi achosion lle y gallai cyflogeion y sector cyhoeddus fod wedi hawlio budd-dal tai nad oedd ganddynt hawl iddo neu eu bod wedi cael gordaliadau budd-daliadau oherwydd nad ystyriwyd eu hincwm llawn.

### Astudiaeth Achos 6

Ymhlith canlyniadau Menter Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro roedd achos o baru a ddangosai fod gan nyrs gynorthwyol, a oedd wedi bod yn gweithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd am ryw bedair blynedd, yr un rhif Yswiriant Gwladol â chyflogai arall y GIG a oedd yn gweithio mewn corff y GIG yn Lloegr.

Yn ôl yr ymchwiliad i'r anghysondeb gan Arbenigwr Gwrth-Dwyll Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar y cyd ag Asiantaeth Ffiniau'r DU, roedd y nyrs yng Nghaerdydd yn defnyddio'r rhif Yswiriant Gwladol yn dwylloddus ac roedd hefyd wedi defnyddio pasbort ffug i gael ei gwaith gyda hen Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn 2005. At hynny, roedd wedi gwneud datgeliadau ffug ar nifer o'i chofnodion cyflogaeth. Canfu'r ymchwiliad fod y nyrs yn byw ac yn gweithio'n anghyfreithlon yn y DU, ar ôl i'w fisa i'r DU ddod i ben yn 2004. Cafodd ei dedfrydu i 52 wythnos o garchar, wedi'u gohirio am ddwy flynedd, am dwyllo'r GIG o £80,000 dros y cyfnod o bedair blynedd yr oedd hi'n gweithio. Roedd yn ofynnol iddi hefyd gwneud 240 o oriau o wasanaeth cymdeithasol di-dâl, ac ar ôl cwblhau hwn, bydd ei statws mewn fudo yn cael ei adolygu.

### Astudiaeth Achos 7

Mae dwy hen Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru yn cydweithio i ymchwilio i achos o baru gan y Fenter sy'n awgrymu y gallai aelod o staff fod wedi bod yn gweithio'n llawn amser yn un Ymddiriedolaeth tra'n gweithio sifftiau dros dro yn y llall. Roedd y cyflogai ar absenoldeb oherwydd salwch hirdymor o un Ymddiriedolaeth tra'n gweithio sifftiau dros dro yn y llall. Mae camau disgyblu wedi dechrau.

- 1.24** Mae hon yn enghraifft bwysig o baru oherwydd os canfyddir bod cyflogai wedi cyflawni twyll budd-dal tai, mae'n cael effaith ar lefel yr ymddiriedolaeth rhwng cyflogwr a chyflogai. Gall arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyflogai a, lle mae'r cyflogai mewn swydd gyfrifol, gallai godi pryderon am ei ymddygiad mewn meysydd cyflogaeth.



## **Mae gwaith paru pensiwn y Fenter wedi dileu llawer o achosion o dwyll a gordaliadau pensiwn hirsefydlog yn llwyddiannus ond mae achosion newydd yn dal i gael eu nodi'n llwyddiannus**

- 1.25** Mae'r Fenter yn paru cofnodion pensiynau â hawlwr budd-dal tai, cofnodion pobl sydd wedi marw a chofnodion cyflogres er mwyn nodi twyll a gordaliadau posibl. Mae'r gwaith paru hwn yn gallu nodi materion megis taliadau pensiwn parhaus i bobl sydd wedi marw, incwm pensiwn heb ei ddatgan tra'n hawlio budd-dal tai a phensiynwyr yn dychwelyd i weithio'n llawn amser i'r un cyflogwr a ddylai arwain at ostwng y taliadau pensiwn.
- 1.26** Cyfanswm gwerth y gordaliadau pensiwn a gafodd eu canfod a'u hatal yn ymarfer 2008-09 oedd ychydig yn fwy na £364,000. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â thaliadau pensiwn i bobl sydd wedi marw. Roedd hyn yn ostyngiad o 58 y cant o gymharu â Menter 2006-07 a nododd gordaliadau o £862,000.
- 1.27** Er bod gwerth y gordaliadau wedi lleihau'n sylweddol, ni chafwyd lleihad cystal yn nifer yr achosion, sef o 21 yn 2006-07 i 16 yn 2008-09. Felly lleihaodd cyfartaledd yr arbedion fesul achos 45 y cant. Mae hyn yn dangos yn glir bod y gwaith caled sy'n cael ei wneud i ymchwilio i achosion o baru'r Fenter yn talu ar ei ganfed. Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o daliadau pensiwn hirsefydlog i bobl sydd wedi marw wedi'u dileu ac mae'r rheini sy'n cael eu nodi nawr drwy'r Fenter heb gael eu talu ers cryn amser.
- 1.28** Mae system y Fenter o baru pensiynau â phobl sydd wedi marw yn enghraifft dda o ba mor llwyddiannus y gall y Fenter fod i leihau twyll yn sylweddol mewn maes sy'n draddodiadol yn agored i dwyll. Nododd ymarfer Menter 2004-05 61 o achosion o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn cael eu talu'n anghywir yn enw pensiynwyr

sydd wedi marw. Mae hyn yn cymharu ag ond 16 o achosion yn ymarfer diweddaraf y Fenter.

## **Mae systemau paru'r Fenter Twyll Genedlaethol a gyflwynwyd er mwyn canfod twyll, gordaliadau a cholled o ran refeniw mewn meysydd newydd yn hynod o effeithiol**

- 1.29** Er bod systemau paru traddodiadol y Fenter wedi bod yn llwyddiannus iawn, nodwyd er mwyn parhau i fod yn system gwrth-dwyll effeithiol, bod angen i'r Fenter ymestyn i feysydd eraill lle y gallai twyll ddigwydd. Felly, yn dilyn ymgynghori helaeth, cyflwynwyd sawl system paru data newydd yn ymarferion Menter 2006-07 a 2008-09. Cynlluniwyd y systemau paru newydd hyn i helpu i nodi twyll posibl o ran:
- a** Gostyngiadau person sengl y dreth gyngor (y gostyngiad person sengl)
  - b** Taliadau credydwyr
  - c** Bathodynau glas
  - ch** Hawliadau yswiriant
  - d** Taliadau i gartrefi gofal preswyl preifat
  - dd** Cofnodion deiliaid trwyddedau

### **Mae system paru newydd y Fenter rhwng data treth gyngor a'r gofrestr etholiadol wedi arwain at ddiddymu 1,098 o ostyngiadau person sengl y dreth gyngor a chanfod ac atal cyfanswm o £1.2 miliwn o ordaliadau**

- 1.30** Mae talwyr y dreth gyngor yn gymwys am ostyngiad ar eu bil lle mai nhw yw unig breswylwr y cartref dros 18 oed, neu lle mae preswylwyr eraill y cartref yn perthyn i gategoriâu wedi'u heithrio, myfyrwyr er

enghraifft. Mae'r gostyngiad yn lleihau cost bil treth gyngor llawn sy'n daladwy ar yr eiddo 25 y cant. Cyfeirir at y gostyngiad hwn fel arfer fel gostyngiad person sengl.

- 1.31** Ym Menter 2006-07, cynhaliwyd ymarfer peilot llwyddiannus yng Nghyngor Sir Caerdydd a wnaeth baru hawliadau am y gostyngiad person sengl â'r gofrestr etholiadol. Nododd yr ymarfer paru hawliadau am ostyngiad person sengl lle'r oedd yr hawlydd yn byw yn yr un eiddo ag unigolyn arall ar y gofrestr etholiadol. Er nad oedd pob achos o baru'n golygu hawliadau anaddas, adolygodd Cyngor Sir Caerdydd yr achosion o baru a diddymu 1,758 o hawliadau lle nad oedd pobl yn gymwys.
- 1.32** O ystyried llwyddiant yr ymarfer peilot, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol, yn dilyn ymarfer ymgynghori, y dylai pob prif awdurdod yng Nghymru gymryd rhan yn yr ymarfer paru ym Menter 2008-09.
- 1.33** Mae'r ymarfer hwn yn hynod o lwyddiannus. Hyd yma, mae Menter 2008-09 wedi arwain at ddiddymu 1,098 o ostyngiadau anghymwys ac wedi canfod ac atal gordaliadau o £1.2 miliwn i bwrs y wlad o ran gostyngiadau a ddyfarnwyd i bobl nad ydynt yn gymwys. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth gordaliadau yn y dyfodol sydd wedi'u hatal yn seiliedig ar gyfartaledd yr amser mae gostyngiadau person sengl o'r fath yn parhau i gael eu talu. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu ymhellach gan nad yw'r dadansoddiad o'r gostyngiad person sengl wedi'i gwblhau eto.
- 1.34** Mae awdurdodau lleol yn adennill 86 y cant o'r gostyngiad a ddyfarnwyd yn anghywir. Yn ogystal â hyn, mae awdurdodau lleol wedi canfod bod rhai unigolion a wnaeth hawlio'r gostyngiad yn amhriodol, hefyd wedi hawlio budd-daliadau eraill yn amhriodol. Mae **Astudiaeth Achos 8** yn nodi sut y mae un awdurdod wedi paru'r gostyngiad person

sengl/cofrestr etholiadol fel rhan allweddol o'i ddull o reoli'r gostyngiad person sengl. Ceir enghraifft yn **Astudiaeth Achos 9** o'r hyn a ganfuwyd gan awdurdod wrth ymchwilio i baru data gostyngiad person sengl/cofrestr etholiadol.

### **Mae system newydd y Fenter o baru data taliadau credydwy'r wedi helpu i nodi £370,000 o ordaliadau credydwy'r sydd wrthi'n cael eu hadennill ar hyn o bryd**

- 1.35** Cyflwynodd Menter 2006-07 system paru data newydd i nodi taliadau credydwy'r twyllodrus neu wallus. Cynlluniwyd y system baru i helpu cyrff cyhoeddus i nodi problemau megis anfonebau dyblyg neu gyfraddau TAW anghywir. Mae hefyd yn galluogi cyrff cyhoeddus i amlygu diffygion yn y system a allai eu gwneud yn agored i dwyll neu wallau. Pan gyflwynwyd hwn gyntaf, cyfyngwyd ar lwyddiant y dull paru data gan ansawdd y data a phroblemau ynghylch manyleb y data felly dim ond £40,000 o ordaliadau a gafodd eu canfod a'u hatal gan y gwaith paru.
- 1.36** Gwnaed gwelliannau i'r broses paru o ran taliadau credydwy'r ar gyfer Menter 2008-09. Mae hyn wedi gwella ansawdd yr achosion o baru a ddarperir i gyfranogwyr ymchwilio iddynt yn sylweddol. Roedd y gordaliadau a nodwyd o'r ymarfer diweddaraf yn £372,000 ac mae'r gordaliadau hyn wedi eu hadennill neu wrthi'n cael eu hadennill lle bo'n bosibl. Mae sawl awdurdod hefyd wedi gwneud gwelliannau i'w systemau rheoli taliadau o ganlyniad i faterion a nodwyd drwy'r Fenter. Mae **Astudiaeth Achos 10** yn nodi sut y defnyddiodd un hen Ymddiriedolaeth y GIG y Fenter fel rhan o'i gwaith i nodi taliadau credydwy'r gwallus. Mae **Astudiaeth Achos 11** yn nodi sut y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi defnyddio'r ymarfer i gael sicrwydd ar ei system taliadau.





### Astudiaeth Achos 8

Pan dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu hachosion cyntaf o baru gan y Fenter rhwng y gofrestr etholiadol a chofnodion y dreth gyngor er mwyn nodi pobl a oedd yn hawlio gostyngiad person sengl y dreth gyngor pan nad oedd hawl ganddynt iddo, roedd amheuan ganddynt ar y cychwyn oherwydd maint y dasg a holwyd a gellid cyflawni buddion ariannol sylweddol.

Er hynny, cynhaliodd y Cyngor ymarfer trwyadl i adolygu'r achosion o baru ac o'i gwblhau cafwyd syndod nid yn unig na chymerodd yr ymarfer gyhyd ag a feddylwyd yn wreiddiol, ond hefyd ynghylch lefel y gordaliadau a gafodd eu canfod a'u hatal. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi diddymu neu wedi tynnu'r gostyngiad yn ôl o 78 o gartrefi ac wedi canfod ac atal gordaliadau o fwy na £88,000 i bwrs y wlad o ran gostyngiadau a ddyfarnwyd i bobl nad oedd ganddynt hawl iddynt.

Mae adolygu parau'r Fenter yn un elfen o ddull gweithredu integredig a gynhelir gan y Cyngor i nodi ceisiadau twyllodrus am ostyngiad person sengl y dreth gyngor. Yn ogystal ag adolygu achosion o baru'r Fenter, mae hefyd yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau eraill, megis adolygiadau treigl i gael cadarnhad o gymhwyster, drwy ddefnyddio asiantaethau statws credyd a, lle y bo'n briodol, ymweliadau gan arolygwyr lle maent yn credu bod gwybodaeth anghywir wedi'i rhoi ar ffurflenni cais gostyngiad person sengl.

### Astudiaeth Achos 9

Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint ymarfer manwl i adolygu achosion o baru rhwng y gofrestr etholiadol a chofnodion y dreth gyngor i nodi pobl a oedd yn hawlio gostyngiad person sengl pan nad oedd hawl ganddynt iddo. Nododd y Cyngor un hawlydd a oedd wedi bod yn cael gostyngiad person sengl a budd-dal tai am bron i saith mlynedd yn seiliedig ar y wybodaeth mai hi oedd unig breswlydd ei chartref. Dangosodd y gofrestr etholiadol bod ei mab mewn oed hefyd yn byw yn y cyfeiriad hwnnw. Yn dilyn ymchwiliad gallai'r Cyngor gadarnhau bod y mab wedi bod yn byw yn yr eiddo am 50 o flynyddoedd, er na ddatgelwyd hyn gan ei fam wrth hawlio budd-dal tai. Nododd y Cyngor bod £22,500 o ostyngiad person sengl a budd-dal tai wedi'i hawlio'n anghyfiawn dros nifer o flynyddoedd. Mae'r Cyngor wedi atal yr hawliadau ac mae'n adennill y gordaliadau ar hyn o bryd. Ni erlynwyd yr hawlydd oherwydd ei hoedran a'i hiechyd bregus.

### Astudiaeth Achos 10

Cynhaliodd un hen Ymddiriedolaeth y GIG ymarfer manwl i adolygu ei system taliadau credydwy'r er mwyn nodi a dileu taliadau dyblyg posibl. Gwnaeth yr ymarfer rhagweithiol hwn gynnwys dadansoddi achosion o baru taliadau credydwy'r y Fenter. O ganlyniad i hyn nododd yr Ymddiriedolaeth dros £260,000 o ordaliadau gwallus. Mae'r Ymddiriedolaeth (a'r Bwrdd Iechyd Lleol olynol) eisoes wedi adennill swm sylweddol o arian ac mae'n ceisio adennill yr holl ordaliadau sy'n weddill. Mae'r ymarfer hwn hefyd wedi bod yn werthfawr i helpu'r Ymddiriedolaeth i nodi a gwella rheolaeth y system er mwyn atal gordaliadau pellach rhag digwydd.

### Astudiaeth Achos 11

Defnyddiodd Llywodraeth y Cynulliad fodiwl paru taliadau credydwy'r y Fenter yn effeithiol i ddarparu sicrwydd ychwanegol ynghylch trosglwyddo gwybodaeth i system cyflenwi TG newydd. Gwnaeth tîm penodedig flaenoriaethu'r achosion o baru a gweithredu proses adolygu systematig ac effeithiol. Adolygwyd pob achos o baru sy'n ymwneud â chredydwy'r, a nodwyd dros £33,000 o wallau taliadau dyblyg yn ystod yr ymchwiliad ac maent naill ai wedi'u hadennill, neu wrthi'n cael eu hadennill. Ar ôl adolygu canlyniadau'r ymarfer, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwella hyfforddiant ar gyfer defnyddwy'r y system newydd ac wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi er mwyn atal gwallau dyblyg rhag digwydd yn y dyfodol.

### **Mae achos newydd o baru gan y Fenter wedi arwain at ddileu 1,390 o fathodynau glas a 4,296 o drwyddedau teithio rhatach yn gysylltiedig â phobl sydd wedi marw**

- 1.37** Cyflwynodd Menter 2008-09 system baru orfodol o fathodynau glas a thrwyddedau teithio rhatach â chofnodion pobl sydd wedi marw. Cynlluniwyd y system baru i nodi bathodynau a thrwyddedau a allai fod yn cael eu defnyddio ar ôl i'r perchennog cofrestredig farw.
- 1.38** Mae bathodynau glas yn darparu ystod o barcio consesiynol ac maent yn gymorth

mawr i bobl sydd â phroblemau symudedd difrifol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y bathodynnau'n cael eu diddymu pan fydd y deiliad yn marw. Gall methu â gwneud hyn arwain at y bathodynnau'n cael eu defnyddio gan bobl nad oes hawl ganddynt iddynt.

**1.39** Mae'n drosedd arddangos bathodyn glas er mwyn osgoi taliadau parcio neu er mwyn cael lle parcio ffafriol pan nad gyrrwr y car neu'r teithiwr yw perchennog dilys y bathodyn. Nid yw hyn yn atal twyllwyr rhag targedu'r cynllun, a gellir gwerthu bathodynnau glas am swm mawr o arian. O ganlyniad i'r twyll hwn mae'r awdurdod lleol yn colli referniw parcio, ond mae hefyd yn golygu na all deiliaid bathodyn glas dilys gael gafael ar leoedd parcio.

**1.40** Mae'r gwaith o baru wedi arwain at ddileu 1,390 o fathodynnau glas ledled Cymru. Unwaith y caiff bathodynnau eu diddymu, mae'n bosibl i awdurdodau lleol sicrhau nad yw'r bathodynnau a ddiddymwyd yn cael eu defnyddio mwyach. Nodir yn **Astudiaeth Achos 12** fod diddymu'r bathodynnau yn galluogi awdurdodau i sicrhau na chânt eu hadnewyddu gan dwyllwyr. Yna gall awdurdodau fonitro achosion lle mae bathodynnau sydd wedi'u diddymu yn parhau i gael eu defnyddio'n dwyllodrus.

### Astudiaeth Achos 12

Defnyddiodd Cyngor Sir Ddinbych y cofnod o baru rhwng bathodynnau glas a phobl sydd wedi marw i geisio nodi bathodynnau glas a allai fod yn cael eu defnyddio'n dwyllodrus ar ôl i'r deiliad cofrestredig farw. Nododd y Cyngor, fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, ei fod yn ansicr a oedd bathodynnau glas yn cael eu defnyddio'n dwyllodrus ar ôl i'r deiliad cofrestredig farw er mwyn osgoi costau parcio (drwy barcio 'ar y stryd'). Felly gweithredodd yn rhagweithiol; gan gyhoeddi manylion bathodynnau o'r fath i'w swyddogion gorfodi sifil er mwyn eu galluogi i gynnal hapwiriadau ar geir a oedd yn arddangos bathodynnau glas.

**1.41** Mae cynllun tocynnau teithio rhatach Cymru yn rhoi'r hawl i bawb sy'n 60 oed ac yn hŷn a phobl sydd ag anabledau i deithio ar fysiau am ddim ledled Cymru. Lle mae perchnogion tocynnau teithio rhatach wedi marw, ni hysbysir yr awdurdod lleol bob amser a gall y tocyn barhau i gael ei ddefnyddio. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i dwyllwyr osgoi costau teithio. O ganlyniad i waith a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol Cymru i adolygu'r achosion o baru, cafodd 4,296 o docynnau eu diddymu.

**1.42** Nid yw'n bosibl mesur y referniw ychwanegol y bydd awdurdodau yn ei gynhyrchu o ganlyniad i ddiddymu bathodynnau glas a thocynnau teithio rhatach yn gywir, gan nad yw'n hysbys faint o'r bathodynnau wedi'u diddymu hyn a fyddai wedi cael eu defnyddio'n dwyllodrus. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Lundain lle nad yw deiliaid bathodynnau glas yn gorfod talu'r tâl atal tagfeydd yn awgrymu bod nifer fawr o fathodynnau'n cael eu defnyddio'n amhriodol ar ôl i ddeiliad bathodyn farw.

### Mae gwaith newydd ar baru hawliadau yswiriant a wneir yn erbyn awdurdodau lleol wedi rhoi sicrwydd nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru wedi wynebu twyll yswiriant gan hawl wyr cyfresol

**1.43** Mae tystiolaeth anecdotaidd wedi awgrymu bod twyllwyr yn targedu awdurdodau lleol drwy gyflwyno hawliadau yswiriant am anafiadau personol i sawl awdurdod lleol. Felly, cyflwynwyd gwaith paru newydd gan y Fenter i baru hawliadau yswiriant ar draws pob awdurdod lleol yn y DU.

**1.44** Ni chanfu'r gwaith paru hwn unrhyw achosion lle y bu awdurdodau'n ddiodefnydd twyll yswiriant. Mae hyn wedi rhoi sicrwydd, er canfyddiadau i'r gwrthwyneb, bod twyll yn erbyn awdurdodau lleol yng Nghymru yn anghyffredin yn y maes hwn.



### **Nododd gwaith paru newydd rhwng taliadau awdurdodau lleol ar gyfer gofal preswyl a phobl sydd wedi marw bum achos o daliadau parhaus er bod y preswylwyr wedi marw**

**1.45** Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall awdurdodau lleol ariannu cost gofal pobl sy'n byw mewn cartrefi preswyl preifat. Cymharodd gwaith paru newydd gan y Fenter daliadau gan awdurdod lleol am ofal preswyl â phobl sydd wedi marw. Os bydd taliadau yn parhau i gael eu gwneud ar ôl i breswilydd farw, gall fod gordaliadau sylweddol iawn. O ganlyniad i waith paru'r Fenter, llwyddodd awdurdodau lleol i ddiweddarau eu cofnodion am bum achos lle nad oeddent wedi cael gwybod am farwolaeth y preswilydd, ac felly sicrhau nad oeddent yn parhau i wneud taliadau.

### **Nododd gwaith paru newydd rhwng deiliaid trwyddedau tacsï, masnach marchnad ac alcohol personol awdurdod lleol a hawlwr budd-dal 19 o achosion lle nad oedd incwm wedi'i ddatgan at ddibenion budd-dal**

**1.46** Mae'n rhaid i unigolion wneud cais i awdurdod lleol am drwydded cyn y gallant ymgymryd â mathau o waith penodol yn yr awdurdod hwnnw. Gwnaeth y Fenter baru cofnodion unigolion wedi'u trwyddedu i yrru tacsï, gweithio fel masnachwyr marchnad a gwerthu alcohol â chofnodion budd-dal tai. Mae'r gwaith paru hwn yn helpu i nodi unigolion sydd wedi methu â datgan incwm o'u masnach neu eu gwaith eu hunain, neu eu partner neu eu priod.

**1.47** Arweiniodd yr ymarfer hwn at nodi 19 o achosion lle'r oedd unigolion naill ai wedi tандatgan incwm neu wedi methu â chrybwyll unrhyw incwm o gwbl. Roedd gordaliadau a wnaed o ran yr achosion hyn yn fwy na £73,300. Nid yw hyn yn cynnwys budd-daliadau a fyddai wedi cael eu talu yn y dyfodol pe na chanfuwyd y twyll neu'r gordaliadau. Mae **Astudiaeth Achos 13** yn nodi sut y defnyddiodd un awdurdod y gwaith paru hwn i nodi incwm heb ei ddatgan.

#### **Astudiaeth Achos 13**

Wrth adolygu achos o baru rhwng hawlwr budd-dal tai a gyrrwr tacsï trwyddedig, nododd Cyngor Bro Morgannwg hawlwr budd-dal tai a oedd yn rhannu llety â gyrrwr tacsï trwyddedig. Dywedodd yr hawlwr wrth swyddogion y Cyngor fod y gyrrwr tacsï yn ffrind da nad oedd yn byw yn yr eiddo ond roedd y tacsï yn parcio y tu allan i'r eiddo. Pan gyfwelwyd ef, dywedodd y gyrrwr tacsï ei fod mewn gwirionedd wedi bod yn byw yn yr eiddo gyda'i bartner ers nifer o flynyddoedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd wedi cyfrannu at dreuliau'r cartref heb fod yn ymwybodol ei bod hi'n hawlio budd-dal tai a threth gyngor. Nid oedd yr hawlwr budd-dal tai wedi datgan bod ei phartner yn byw yno na'i incwm, a thros dair blynedd a hanner hawliodd dros £13,000 mewn budd-daliadau nad oedd ganddi hawl iddynt. Gwnaeth y Cyngor atal yr hawliad ac mae wrthi'n adennill y taliadau budd-dal a wnaed. Plediodd yr hawlwr yn euog i gyflwyno dogfennau ffug ar ddau achlysur. Cafodd ei dedfrydu i gyrrffyw am dri mis rhwng 9 pm a 7 am, wyth wythnos o garchar a ohiriwyd am chwe mis a gorchymyn i dalu costau llawn y Cyngor.

## Rhan 2 – Mae angen i'r Fenter Twyll Genedlaethol ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau y gwnaiff y cyfraniad mwyaf posibl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru

- 2.1** Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd yn wynebu eu her fwyaf ers cenhedlaeth. Maent yn wynebu gostyngiadau sylweddol mewn cyllidebau termau real yn y blynyddoedd nesaf. Felly mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn gweithio i ddileu gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn eu gwasanaethau presennol er mwyn lleihau'r effaith bosibl ar wasanaethau'r rheng flaen. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau bod gan y rheini sy'n cael gwasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau yr hawl iddynt.
- 2.2** Pan fydd twyll yn digwydd yn y sector cyhoeddus, collir adnoddau gwerthfawr sydd eu hangen i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Felly mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus a'u harchwilwyr yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i atal a chanfod twyll sy'n digwydd.
- 2.3** Fel y nodwyd yn **Rhan 1**, mae'r Fenter wedi bod yn adnodd hynod o effeithiol wrth atal a chanfod twyll yn erbyn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi ddatblygu a gwella ymhellach os ydyw'n mynd i gynnal a gwella ei chyfraniad i effeithlonrwydd cyffredinol y mae'n rhaid ei gyflawni. Mae'r datblygiadau a'r gwelliannau sydd eu hangen yn cynnwys:
- a** cynyddu nifer y cyrff cyhoeddus sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer;
  - b** mwy o gysondeb yn y dull gweithredu a ddefnyddir gan gyrrff cyhoeddus i ymchwilio i'r achosion o baru data;
  - c** ymestyn y Fenter i feysydd newydd lle y gallai twyll ddigwydd; a

**ch** sicrhau y caiff safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter eu cynnal a'u gwella lle y bo'n bosibl.

### Mae angen cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn sicrhau buddiannau mwyaf posibl yr ymarfer

- 2.4** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter o dan y darpariaethau yn adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll sy'n digwydd yng Nghymru neu sy'n gysylltiedig â Chymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol ofyn i awdurdodau lleol a chyrrff y GIG gymryd rhan mewn ymarferion paru data ac mae wedi'i gwneud yn ofynnol i holl awdurdodau unedol, yr heddlu, tân a gwasanaethau prawf a chyrrff y GIG yng Nghymru gymryd rhan yn y Fenter. Mae'r darpariaethau hefyd yn caniatáu i sefydliadau eraill, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gymryd rhan yn wirfoddol mewn ymarferion paru data a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Llywodraeth y Cynulliad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y Fenter ac mae eu hymrwymiad i fynd i'r afael â thwyll drwy gymryd rhan yn y gwaith o baru data yn gymeradwy.
- 2.5** Pe byddai mwy o sefydliadau'n cyfrannu at y Fenter, gellid paru nifer cynyddol o setiau data a fydd yn eu tro yn darparu mwy o gyfle i nodi twyll.



- 2.6** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno ymestyn cyfranogiad yn y Fenter i gymaint o gyrff cyhoeddus yng Nghymru â phosibl ac mae'n annog yr holl gyrff a ariennir yn gyhoeddus i gymryd rhan yn wirfoddol. At hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried ymestyn y Fenter i'w gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru gymryd rhan ac mae'n debygol o ymgynghori ar gynigion yn hwyrach eleni.
- 2.7** Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn cael budd pan fo gyrff cyhoeddus mewn rhannau eraill o'r DU yn cymryd rhan yn y Fenter, gan nad yw twyllwyr yn parchu ffiniau daearyddol. Mae gyrff llywodraeth leol a'r GIG yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn y Fenter ar hyn o bryd, fel y mae nifer o adrannau llywodraeth Gogledd Iwerddon. Er y darperir rhai setiau data gan adrannau llywodraeth ganolog y DU, gan gynnwys budd-dal tai a chofnodion pobl sydd wedi marw, hyd yma, dim ond un asiantaeth llywodraeth y DU, yr Asiantaeth Priffyrdd, sydd wedi cyflwyno manylion ei staff ei hun i'r Fenter. Mae'r Adran Iechyd wedi cytuno i gymryd rhan yn ymarferion y Fenter yn y dyfodol.
- 2.8** Pe byddai mwy o adrannau'r llywodraeth ganolog yn cymryd rhan yn wirfoddol yn y Fenter, byddai'n eu galluogi i fynd i'r afael â thywll a gyflawnir yn eu herbyn gan eu cyflogeion eu hunain. Gallai hefyd arwain at gyflwyno setiau data newydd ar gyfer paru twyll megis cofnodion gyrwyr DVLA a chofnodion incwm trethadwy Cyllid a Thollau EM.
- 2.9** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gobeithio y bydd y llywodraeth nawr yn cymryd rôl fwy arweiniol ac yn arfer y pŵer o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 i osod gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl adrannau'r llywodraeth a'u gyrff hyd braich gymryd rhan yn y Fenter.
- 2.10** Ym Menter 2008-09, cyflwynodd bron i 100 o sefydliadau'r sector preifat yn y DU eu data cyflogres a/neu bensiwn yn wirfoddol i'r Fenter. Mae hyn wedi helpu i nodi unigolion na wnaeth ddatgan eu pensiynau na'u henillion cyflogaeth wrth hawlio budd-daliadau oddi wrth awdurdodau lleol. Mae'r ymarfer hefyd o fudd i gyflogwyr y sector cyhoeddus a'u cynlluniau pensiwn gan y gall nodi materion fel taliadau pensiwn yn enw pensiwnwyr sydd wedi marw a chyflogeion nad oes ganddynt hawl i aros neu weithio yn y DU.
- 2.11** Felly mae cynyddu cyfranogiad sefydliadau'r sector preifat yn y Fenter o fudd i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn eu brwydr yn erbyn twyll.

## **Mae lle i wella lefel a chysondeb cyfranogiad gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y Fenter Twyll Genedlaethol**

- 2.12** Er bod cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y Fenter yn bwysig, mae'r un mor bwysig bod cyfranogwyr yn gyson yn eu hymrwymiad i ddarparu'r data angenrheidiol ar gyfer paru, yn ymchwilio i'r achosion o baru data ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r buddiannau y gellir eu sicrhau.
- 2.13** Ar wahân i un awdurdod lleol, darparodd cyfranogwyr Menter 2008-09 a gymerodd ran ar sail orfodol y rhan fwyaf o'r setiau data y gofynnwyd amdanynt ar gyfer gwaith paru'r Fenter.
- 2.14** Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yng Nghymru wedi datblygu dull effeithiol o reoli'r Fenter ac adolygu achosion o baru data, ac nawr mae ganddynt dimau profiadol iawn sy'n gyfrifol am y gwaith. Yn yr ymarfer diweddaraf, mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi cynyddu eu

hymdrechion i ymchwilio i achosion o baru'r Fenter, ac mae rhai wedi bod yn rhagweithiol iawn yn eu hymagwedd tuag at y Fenter.

**2.15** Er ein bod wedi gweld gwelliant cyffredinol yn y ffordd y mae awdurdodau yn gweithio gyda'r Fenter, mae rhywfaint o amrywiaeth o hyd yn ymrwymiad cyrff unigol i ymchwilio i'r achosion o baru. Hefyd, er bod awdurdodau yn ymchwilio'n rhagweithiol iawn i rai achosion o baru megis pensiynau i bobl sydd wedi marw, nid oes ymrwymiad tebyg i'w weld wrth ystyried achosion pwysig eraill o baru. Gall hyn arwain at beidio ag ymchwilio'n amserol i rai mathau o baru sy'n golygu bod gordaliadau twyllodrus neu wallus yn parhau yn hirach nag sydd ei angen.

**2.16** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i weithio gyda chyfranogwyr drwy ddarparu canllawiau a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r Fenter yn y ffordd orau a sut i gael y canlyniadau gorau o'u hymchwiliadau.

## **Mae angen i'r Fenter Twyll Genedlaethol barhau i ymestyn i feysydd newydd o'r gwasanaethau cyhoeddus lle y gallai twyll ddigwydd**

**2.17** Fel y nodwyd yn **Rhan 1**, cyflwynodd Menter 2008-09 nifer o feysydd newydd o waith paru data twyll. Er bod y gwaith hwn o baru data wedi bod yn llwyddiannus iawn, mae angen i'r Fenter barhau i ddatblygu i feysydd newydd lle y gallai twyll ddigwydd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd lle y mae twyllwyr yn gwybod bod rheolaethau gwrth-dwyll yn gryf mewn rhai meysydd, byddant yn targedu'r hyn maent yn eu hystyried yn feysydd gwan yn eu lle.

**2.18** Mae'r Comisiwn Archwilio, gyda chymorth yr Archwilydd Cyffredinol, yn treialu cynnal cynlluniau paru data posibl newydd y Fenter ar hyn o bryd. Ymhlith y rhain mae gwaith paru wedi'i gynllunio i helpu i ganfod:

- a** unigolion sydd wedi gwneud cais twyllodrus am ostyngiad yn y dreth gyngor am dŷ y maent yn berchen arno ar y sail ei fod wedi bod yn wag a heb ddodrefn am fwy na chwe mis, ond mewn gwirionedd mae pobl wedi bod yn byw ynddo;
- b** unigolion sydd wedi gwneud cais am fathodynau glas i fwy nag un awdurdod lleol (ac felly y gallent fod yn gwerthu'r bathodynau); ac
- c** achosion o ordalu budd-daliadau o ran swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân sy'n cael eu hanafu yn y gwaith.

## **Mae'n rhaid cynnal safonau uchel presennol diogelwch data'r Fenter Twyll Genedlaethol**

**2.19** Mae hyder y cyhoedd yn niogelwch y data y mae'r Fenter yn ei gadw yn sylfaenol i'w llwyddiant. Mae rheolaethau cadarn dros ben ar waith i sicrhau diogelwch data ac i leihau'r posibilrwydd bod pobl yn cael gafael ar ddata yn amhriodol. Mae'r rheolaethau hyn yn cynnwys:

- a** amgryptiad data awtomatig wrth lanlwytho data i'r Fenter;
- b** rheolaethau i sicrhau mai dim ond y rhai sydd ei angen sydd â hawl i weld y data; a
- c** mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu'r amgylchedd ffisegol lle cedwir y data.



- 2.20** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod nid yn unig y dylid cadw'r data a'i brosesu'n gyfreithlon ac yn ddiogel, ond bod yn rhaid gweld mai dyna'r sefyllfa hefyd. At hynny, fel y daw seibrymosodiadau yn fwy soffistigedig, mae'n rhaid i'r Fenter ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf blaenllaw sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad hwn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i sicrhau bod y safonau diogelwch uchaf yn parhau i gael eu cymhwyso i'r Fenter yn y dyfodol.
- 2.21** Er mwyn sicrhau bod rheolaethau diogelwch yn addas at y diben, yn 2009, aeth y Comisiwn Archwilio ati gyda chefnogaeth yr Archwilydd Cyffredinol, i ymgysylltu'n wirfoddol ag ymgynghorwyr allanol. Diben yr ymgysylltu oedd adolygu cydymffurfiaeth y Fenter â safonau gwybodaeth perthnasol y llywodraeth. Pasiodd y Fenter yr adolygiad, a chafodd ei hachredu i drafod, storio a phrosesu gwybodaeth i'r lefelau dosbarthiadol sy'n ofynnol gan adrannau llywodraeth.
- 2.22** O ystyried datblygiadau ym mhroses y Fenter a risgiau sy'n dod i'r amlwg yn barhaus, mae angen o hyd i adolygu'r amgylchedd diogelwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn parhau i fod yn ddigon cadarn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, y Comisiwn Archwilio, Audit Scotland, Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal adolygiadau diogelwch o'r Fenter ar y cyd ar sail gylchol er mwyn sicrhau bod y Fenter yn parhau i gwrdd â safonau diogelwch llym mewn ymarferion y dyfodol. Mae adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- 2.23** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol iawn bod paru data personol yn sensitif iawn. Yn 2008, paratodd yr Archwilydd Cyffredinol God Ymarfer ar Barau Data (y Cod) fel sy'n ofynnol gan ddarpariaethau Deddf Troseddau Difrifol 2007. Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd, cyflwynwyd y Cod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'i cymeradwywyd. Mae gan y Cod statws statudol ac fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gwybodaeth am bobl yn cael ei diogelu a'i phrosesu'n briodol yn ystod ymarferion paru data yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac arfer gorau.
- 2.24** Wrth ystyried ymestyn y Fenter i feysydd newydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i gydbwysu preifatrwydd yr unigolion y mae'r data yn ymwneud â nhw â'r buddiannau posibl sydd i'w cyflawni drwy'r ymarfer paru data. Dim ond mewn meysydd lle y mae risg sylweddol o dwyll y bydd yr Archwilydd Cyffredinol felly yn ystyried gwaith paru newydd y Fenter.

# Atodiad 1 – Sut y mae'r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol yn gweithio

Ym 1996, lansiodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Lloegr y Fenter er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i baru gwybodaeth am hawlwyd ar draws meysydd gwasanaeth gwahanol a ffiniau daearyddol. Bu'r ymarfer yn llwyddiant ac ers hynny cynhaliwyd y Fenter bob dwy flynedd, gan gyflwyno cyfranogwyr newydd a modiwlau newydd ar gyfer nodi twyll a gordaliadau ym mhob ymarfer newydd. Mae'r Fenter wedi sefydlu'i hun fel y prif ymarfer yn y DU o ran canfod twyll yn y sector cyhoeddus. Ers 1996, mae'r Fenter wedi canfod dros £16 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, a bron £664 miliwn ledled y DU.

Mae cyfranogwyr yn y Fenter yn rhoi data sy'n ymwneud â'u systemau gwybodaeth i'r Comisiwn Archwilio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol a'i harchwilwyr. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn eang ei chwmpas ac yn cynnwys data sy'n ymwneud â budd-daliadau tai, pobl sy'n cael benthyciadau myfyrwyr, a thaliadau cyflogresi a thaliadau pensiwn. Caiff y data a ddarperir ei fewnbynnu i gronfa ddata ganolog y Comisiwn Archwilio a gynlluniwyd i baru gwahanol setiau data at ddibenion nodi hawliadau a thaliadau twyllodrus neu wallus. Os caiff data ei baru, gallai ddynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach; nid yw'n dystiolaeth o dwyll ei hun.

Darperir adroddiadau i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan sy'n cynnwys yr achosion o baru sy'n berthnasol i'w sefydliad a nhw sy'n gyfrifol am ddadansoddi'r achosion hynny o baru. Mae'n rhaid i'r cyfranogwyr adolygu'r achosion o baru mewn ffordd briodol a chymesur er mwyn eu galluogi i ddileu paru cyd-ddigwyddiadol. Mae'n rhaid iddynt ddefnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau eraill i gynnal ymchwiliadau priodol er mwyn penderfynu a yw achosion unigol o baru wedi codi oherwydd hawliad neu daliad twyllodrus. Mewn llawer o achosion, mae achosion o baru yn codi oherwydd gwallau yn y data, ac oherwydd bod y Fenter wedi tynnu sylw at y mater, mae'n caniatáu i'r cyfranogwyr gywiro neu ddiweddarau'r data a gedwir yn eu cofnodion.

Cofnodir canlyniadau'r ymchwiliadau gan aelodau priodol o staff. Lle y canfyddir taliadau neu ordaliadau twyllodrus, cofnodir gwerth y trafodion hynny a rhoddir y wybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol a'i harchwilwyr.

Trosglwyddir setiau data gan gyfranogwyr i'r Comisiwn Archwilio gan ddefnyddio proses drosglwyddo electronig sy'n amgryptio data wrth ei lanlwytho. Trosglwyddir y data drwy wefan ddiogel y Fenter, a throsglwyddir yr holl achosion o baru yn ôl i'r cyfranogwyr gan ddefnyddio'r un adnodd. Rheolir mynediad i'r adnodd ac achosion o baru'r Fenter drwy gyfrinair, ac mae rheolaethau llym yn bodoli er mwyn sicrhau y darperir mynediad i unigolion priodol.

Mae archwilwyr yn adolygu'r cynnydd a wneir gan gyfranogwyr, ac yn darparu canllawiau a chynghor i gyfranogwyr fel y bo angen.